**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD BLEDDYN, FFYNNON TAF, RHONDDA CYNON TAF) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd, ac nid awdurdodir ei chau ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Hydref 2019 o dan y cyfeirnod 19/0380/15 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Bleddyn, Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) 2024 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r planiau a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yng Ngorsaf Drenau Ffynnon Taf, Ffynnon Taf, Caerdydd, CF15 7RN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1481673.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 24 Medi 2024, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (FFORDD BLEDDYN, TAFF'S WELL, RHONNDA CYNON TAF) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Rhondda Cynon Taf County Borough Council on 9 October 2019 with reference number 19/0380/15 described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Ffordd Bleddyn, Taff's Well, Rhondda Cynon Taf) Order 2024 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plans may be inspected free of charge during normal opening hours at Taff's Well Railway Station, Taff's Well, Cardiff, CF15 7RN or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1481673.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the Act; or

b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 24 September 2024 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

1. Darn trionglog ei siâp o briffordd ar ochr dde-ddwyreiniol Ffordd Bleddyn a hen fynedfa at Ystad Ddiwydiannol Garth Works, Ffynnon Taf sy'n 24.9 o fetrau yn y man hiraf, ac yn 6.7 metr yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 91.7 o fetrau sgwâr wedi ei farcio gan linellau sebra a'i labelu'n 'Y Plan a Adneuwyd 1'.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar gornel dde-ddwyreiniol Ffordd Bleddyn ac sy'n arwain at y gyffordd ar ochr dde-ddwyreiniol Cardiff Road, Ffynnon Taf sy'n 75 o fetrau yn y man hiraf, ac yn 10.2 metr yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 576.2 o fetrau sgwâr wedi ei farcio gan linellau sebra a'i labelu'n 'Y Plan a Adneuwyd 2'.

3. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ymyl ochr ogledd-orllewinol Ffordd Bleddyn syn gyfagos i Faes Parcio Gorsaf Drenau Ffynnon Taf sy'n 29.5 o fetrau yn y man hiraf, ac yn 6.7 metr yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 98.8 o fetrau sgwâr wedi ei farcio gan linellau sebra a'i labelu'n 'Y Plan a Adneuwyd 3'.

4. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ymyl ochr ogledd-orllewinol Ffordd Bleddyn sy'n gyfagos i Faes Parcio Gorsaf Drenau Ffynnon Taf sy'n 50.1 o fetrau yn y man hiraf, ac yn 10.2 metr yn y man lletaf ac y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 225.1 o fetrau sgwâr wedi ei farcio gan linellau sebra a'i labelu'n 'Y Plan a Adneuwyd 3'.

**ATODLEN 2**

**Y Datblygiad**

Mae Trafnidiaeth Cymru yn adeiladu Depo Metro newydd ar hen Ystad Ddiwydiannol Garth Works yn Ffynnon Taf. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y briffordd ar Ffordd Bleddyn yn cael ei chodi i ddarparu trosbont newydd ar gyfer y fynedfa rheilffordd newydd i'r safle. Bydd y gwelliannau i'r briffordd yn cynnwys mynedfa newydd i'r Depo, yn ogystal â gwelliannau i'r droetffordd/llwybr beiciau. Mae tri lleoliad i'w cau. Mae hyn yn cynnwys cyffordd i hen Ystad Ddiwydiannol Garth; darn o dir ar gornel dde-ddwyreiniol Ffordd Bleddyn; ac mae'r trydydd lleoliad yn ardal llain ymyl y tu blaen i faes parcio'r rheilffordd.

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**

**Lengths of highway to be stopped up**

1. A triangular shaped length of highway located on the southeastern side of Ffordd Bleddyn and former access to Garth Works Industrial Estate, Taff's Well having a maximum length of 24.9 metres, maximum width of 6.7 metres and total area of 91.7 square metres marked by zebra hatching and labelled 'Deposited Plan 1'.

2. An irregular shaped length of highway located on the southeastern corner of Ffordd Bleddyn and approach to the junction on the southeastern side of Cardiff Road, Taff's Well having a maximum length of 75 metres, maximum width of 10.2 metres and total area of 576.2 square metres marked by zebra hatching and labelled 'Deposited Plan 2'.

3. An irregular shaped length of highway located on the verge of the northwestern side of Ffordd Bleddyn adjacent to Taff's Well Railway Station Car Park having a maximum length of 29.5 metres, maximum width of 6.7 metres and total area of 98.8 square metres marked by zebra hatching and labelled 'Deposited Plan 3'.

4. An irregular shaped length of highway located on the verge of the northwestern side of Ffordd Bleddyn adjacent to Taff's Well Railway Station Car Park having a maximum length of 50.1 metres, maximum width of 10.2 metres and total area of 225.1 square metres marked by zebra hatching and labelled 'Deposited Plan 3'.

**SCHEDULE 2**

**The Development**

Transport for Wales are constructing a new Metro Depot on the former Garth Works Industrial Estate at Taff's Well. As part of these works, the highway on Ffordd Bleddyn will be raised to provide a new overbridge for the new rail access to the site. The highway improvements will include a new access to the Depot, as well as footway/cycleway improvements. There are three locations to be stopped up. This includes a junction to the former Garth Industrial Estate; an area of land on the southeast corner of Ffordd Bleddyn; and the third location is a verge area which fronts the rail car park.